# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 27 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

16 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

18 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cerbydau Gweinidogol

**Jonathan Morgan:** Faint o gerbydau gweinidogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ30398)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Pump.

### Arian a Wariwyd ar Gerbydau Gweinidogol

**Jonathan Morgan:** Faint o arian a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddarparu a rhedeg cerbydau gweinidogol yn a) 1999, b) 2000, c) 2001, ch) 2002 a d) 2003? (WAQ30399)

**Y Prif Weinidog:** Dangosir y wybodaeth yn y tabl isod. Mae'r costau'n cynnwys prynu cerbydau, cynnal a chadw, talu am danwydd, yswiriant, treth ffordd a gwarchodaeth rhag i'r cerbydau fethu. Maent hefyd yn cynnwys cost llogi ceir gyda gyrrwr, a ddefnyddir pan nad yw cerbydau'r Cynulliad ar gael. Nid ydynt yn cynnwys costau cysylltiol gyrwyr y Cynulliad.

| Blwyddyn | Cost (£) |
|---|---:|
| 1999-2000 | 71,500 |
| 2000-01 | 87,500 |
| 2001-02 | 88,000 |
| 2002-03 | 70,500 |
| 2003-04 (hyd yma) | 36,000 |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Ymgyrch Arwyr Cymru

**Nick Bourne:** Beth yw cost ymgyrch Arwyr Cymru i'r trethdalwr? (WAQ29150)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 30 Hydref 2003.*

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Culturenet Cymru yn cynnal cyfres o brosiectau yn cynnwys cynlluniau addysgol megis 'Casglu'r Tlysau' yn ogystal â phrosiectau poblogaidd megis ymgyrch Arwyr Cymru. Mae cost lawn Culturenet Cymru yn £600,000 y flwyddyn. Yn y cyfnod byr iawn—chwe wythnos—ers i brosiect Arwyr Cymru ddechrau, cysylltwyd â'r wefan dros filiwn o weithiau, a chafwyd dros 23,090 o enwebiadau.

### Academïau Ffilm

**Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sefydlu academïau ffilm yng Nghymru, yn sgîl y strategaeth sgiliau gwerth £50 miliwn a gyhoeddodd Skillsnet a Chyngor Ffilm Prydain ar gyfer y diwydiant ffilmiau yn eu dogfen 'A Bigger Future'? (WAQ30353)

**Alun Pugh:** Deallaf y bydd nifer o sefydliadau ar draws y DU yn cael eu cydnabod fel academïau ffilm, yn dilyn proses dendro. Ar draws y DU, bydd hyd at bedair academi sgrin ym maes addysg bellach, hyd at bum academi sgrin ym maes addysg uwch ac un academi ffilm busnes. Gwneir trefniadau ar wahân i Gymru, Lloegr a'r Alban ym maes addysg bellach. Dylai canllawiau a ffurflenni cais ar gyfer y broses dendro fod ar gael yn gynnar yn 2004.

## Cynlluniau Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn cynlluniau iaith Gymraeg oddi wrth yr holl fyrddau iechyd lleol? (WAQ30425) [W]

**Alun Pugh:** Deallaf fod y byrddau iechyd lleol yn paratoi cynlluniau iaith Gymraeg ar hyn o bryd a fydd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

## Cynlluniau Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i greu fframwaith deddfwriaethol i'w gwneud yn ofynnol i'r nifer mwyaf posibl o gyrff baratoi cynlluniau iaith Gymraeg? (WAQ30426) [W]

**Alun Pugh:** Mae adran 6(1)(o) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn galluogi cyrff cyhoeddus i gael eu pennu fel cyrff y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r gwaith o bennu cyrff cyhoeddus i gael eu henwi o dan adran 6(1)(o) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn broses barhaus, ac mae pedwar Gorchymyn o'r fath wedi cael eu gwneud hyd yma. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i bennu cyrff ychwanegol.

Ynghlwm â hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i wthio ffiniau'r ddeddfwriaeth bresennol, ac mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud i bennu ymgymerwyr dŵr/carthffosiaeth o dan y Ddeddf, gyda'r bwriad o wneud offeryn statudol ym mis Ionawr. Dyma'r enghraifft gyntaf o ddwyn y cyfleustodau o dan gwmpas Deddf yr Iaith Gymraeg.

Cytunwyd hefyd y bydd cynlluniau iaith Gymraeg yn dod yn rheidrwydd sylfaenol i gymdeithasau tai. Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu yn unol ag amserlen sydd i'w chytuno rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## Yr Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys fel elfennau perthnasol wrth ddatblygu polisïau a chyflenwi gwasanaethau ar draws holl adrannau'r Cynulliad a'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (WAQ30427) [W]

**Alun Pugh:** Ar lefel gweinidogol, yr wyf wedi ymrwymo i hyrwyddo ystyriaeth o'r iaith ymhlith fy nghyd-Weinidogion. Yr uned iaith Gymraeg yr wyf i'n gyfrifol amdani yw'r grym y tu ôl i'r broses o brif-ffrydio ar lefel swyddogol. Mae'r uned yn hwyluso ac yn galluogi'r broses o brif-ffrydio drwy Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r uned hefyd yn monitro'r broses o brif-ffrydio'r iaith yng ngwaith Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar hynt 'Iaith Pawb' a'r cynllun iaith Gymraeg yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf 2004.

Mae 'Iaith Pawb' yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan brif ffrwd o'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Yn ei lythyr cylch gwaith 2003-04 at yr holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gofynnwyd iddynt sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o brif ffrwd eu gwaith a'u bod yn paratoi strategaeth i'r diben hwnnw.

## Sefydlu Uned Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sefydlu uned iaith Gymraeg o fewn gweinyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o weithredu a monitro cynllun iaith Gymraeg y Llywodraeth? (WAQ30428) [W]

**Alun Pugh:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ26924 ar 7 Gorffennaf 2003. Erbyn hyn, mae wyth aelod o staff yn uned yr iaith Gymraeg ac mae'r uned yn recriwtio aelod arall o staff ar hyn o bryd.

### Defnydd o'r Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i ddatblygu, crynhoi a chyhoeddi ystod o ddangosyddion ystadegol ac arolygon defnydd iaith ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg, lefelau rhuglder ac ymdreiddiad? (WAQ30429) [W]

**Alun Pugh:** Mae data cadarn yn hanfodol ar gyfer cynllunio ieithyddol effeithiol. Yn unol â'n hymrwymiadau yn 'Iaith Pawb' i gasglu data mwy rheolaidd, mwy helaeth a mwy perthnasol ar y Gymraeg, mae ystadegydd wedi'i secondio gan Lywodraeth y Cynulliad i weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae data o gyfrifiad 2001 wedi cael ei ddadansoddi yn fanwl ac ar gael ar wefan y bwrdd, a chaiff rhagor o ddata ei ddadansoddi maes o law.

Mae arolygon a ffynonellau data perthnasol eraill yn cael eu harchwilio, a chynigion ar gyfer ehangu neu newid yn cael eu hystyried fel rhan o'n hymrwymiad i brif-ffrydio'r Gymraeg.

Caiff yr arolwg o gartrefi Cymru, a gynhelir yn 2004, 2005 a 2006, ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth ynghylch defnydd iaith, gan ddiweddaru ac ehangu ar y wybodaeth a ddarparwyd gan arolwg cymdeithasol Cymru 1992.

Bydd bwrdd yr iaith yn cynnal dau brosiect ymchwil sylweddol yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd un o'r prosiectau hyn yn archwilio pam nad yw rhai rhieni dwyieithog yn trosglwyddo'r ddwy iaith i'w plant, a'r llall yn canolbwyntio ar rwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc a'u defnydd o'r Gymraeg. Nod y ddau arolwg fydd darparu cynigion ymarferol y gellir gweithredu arnynt.

### Fforwm Iaith

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i ymgynghori ynglŷn â'r cynigion ar gyfer fforwm iaith? (WAQ30431) [W]

**Alun Pugh:** Byddaf yn ymgynghori'n fuan ar gynigion am fforwm iaith yn unol â'r ymrwymiad yn 'Iaith Pawb'.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Ehangu'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch ehangu'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus? (WAQ29591)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Yr wyf yn cael trafodaethau yn aml gyda chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus, yr awdurdodau lleol ac eraill.

### Adroddiadau y mae Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan wedi'u Cyflwyno

**David Davies:** Pa adroddiadau y mae AWEMA wedi'u cyflwyno i'r adran datblygu economaidd ac a allaf i gael copïau ohonynt? (WAQ30097)

**Andrew Davies:** Mae AWEMA wedi cyflwyno saith adroddiad i adran datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad, sef:

- tri adroddiad cynnydd gan y swyddog datblygu economaidd;

- dau adroddiad cynnydd am y grant datblygu economaidd; a
- dau adroddiad gan AWEMA am ei chyllideb datblygu economaidd.

O ran yr hawl i weld yr adroddiadau hyn, yr wyf wedi gofyn i'r swyddogion ystyried a oes modd i'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio gael ei darparu ichi mewn ffordd sy'n gydnaws â'r darpariaethau yng nghod ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a'r cod ymarfer ar ddarparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad.

Byddaf yn ysgrifennu atoch ar ôl derbyn cyngor pellach ar y mater hwn.

### AWEMA

**David Davies:** Pa wasanaethau y mae AWEMA wedi'u darparu i adran datblygu economaidd y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ30098)

**Andrew Davies:** Darparwyd cymorth ar gyfer swyddog datblygu economaidd i alluogi AWEMA i ddatblygu ei gallu i helpu i dywys polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn eu blaen er mwyn sicrhau bod buddiannau lleiafrifol yn cyfranogi yn ffyniant economaidd Cymru ac yn cyfrannu ato.

### Pwyllgorau Monitro Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol

**Alun Cairns:** Pa ymchwil a wneir i gefndir aelodau pwyllgorau monitro rhaglenni'r cronfeydd strwythurol? (WAQ30140)

**Andrew Davies:** Caiff aelodau pwyllgorau monitro rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2000-06 eu henwebu gan y cyrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus ymbarél sy'n ffurfio'r bartneriaeth ehangach. Mater i'r cyrff hynny yw cynnal unrhyw archwiliadau cefndir angenrheidiol.

### Benji & Co. Cyf. o Lanidloes

**Glyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi nodi ei fwriad os mai Benji & Co. Cyf. o Lanidloes a gaiff safle KTH yn Llanidloes i dynnu'r cynnig i ddarparu mynedfa newydd i'r safle o ffordd osgoi Llanidloes yn ôl? (WAQ30142)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi gwneud unrhyw awgrym o'r fath. Fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir o'r dechrau fod y ffordd fynediad newydd yn rhan allweddol o strategaeth adfywio ehangach i Lanidloes a rhaid ei hystyried yng nghyd-destun cynigion adfywio ehangach i'r dref yn ei chyfanrwydd. Mae hen safle KTH yn Llanidloes yn rhan annatod o adfywio'r dref yn y tymor hir.

### Gofynion Busnes Benji & Co. Cyf. o Lanidloes

**Glyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi trafod gofynion busnes Benji & Co. Cyf. o Lanidloes gyda naill ai Gadeirydd neu Brif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ30143)

**Glyn Davies:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i helpu Benji & Co. Cyf. o Lanidloes i ddarganfod safle busnes addas yn Llanidloes neu'r cyffiniau? (WAQ30144)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi trafod gofynion penodol Benji and Co Ltd o Lanidloes gyda chadeirydd na phrif weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru, ond mae fy swyddogion mewn cysylltiad â chyfarwyddwr gweithredol swyddfa ranbarthol yr awdurdod yn y Canolbarth.

Mae grŵp adfywio Llanidloes hefyd wedi cytuno, fel blaenoriaeth, i wneud popeth a all i gynorthwyo Benji and Co Ltd i ehangu, law yn llaw â'r ymdrechion sydd ar waith gan Awdurdod Datblygu Cymru. Mae cyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal gyda'r cwmni i geisio canfod dewisiadau eraill posibl.

## Gwasanaethau Rheilffordd yng Ngogledd Cymru

**Ann Jones:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gydag Arriva Trains ynghylch gwasanaethau rheilffordd yng ngogledd Cymru? (WAQ30312)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau rheilffordd yng ngogledd Cymru? (WAQ30313)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm â phrif weithredwr Arriva Trains, Mr Bob Davies, a'i dîm yng Nghymru ar 11 Tachwedd 2003 a thrafodwyd y gwasanaethau rheilffordd yng ngogledd Cymru, yn cynnwys yr angen i wella'r gorsafoedd. Yr wyf hefyd yn croesawu'r gwasanaethau ychwanegol gan Virgin rhwng Euston a'r Gogledd, a gaiff eu cyflwyno erbyn mis Medi 2004.

## Darparu Band Eang yng Ngogledd Cymru

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu band eang yn y Gogledd? (WAQ30314)

**Andrew Davies:** Mae gweithredu rhaglen bum mlynedd, gwerth £115 miliwn, Band Eang Cymru yn golygu bod amryw o brosiectau cydategol yn cael ei sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â methiant y farchnad, rhoi sylw i'r diffygion o ran y galw a'r cyflenwad a dod â mynediad fforddiadwy at fand eang o fewn cyrraedd i fwy o bobl ac ehangu'r amrywiaeth technolegau sy'n cael eu defnyddio i'w gyflenwi.

Mae amryw o brosiectau cyflenwad a galw yn cael eu gyrru ymlaen er mwyn sicrhau cysylltedd band eang ar hyd a lled y Gogledd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllun cymhorthdal lloeren Cymru gyfan i fusnesau bach a chanolig eu maint a sefydlwyd i helpu busnesau sydd heb wasanaeth ADSL gyda'r gost o fanteisio ar fand eang drwy loeren. Mae hyd at £1,500 ar gael a gellir cael manylion pellach oddi wrth yr awdurdod datblygu. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ehangu erbyn diwedd y flwyddyn i'w wneud yn niwtral o ran technoleg. Mae'r cynllun cysylltiol, rhowch gynnig arno cyn prynu, wedi annog llawer o fusnesau ledled Cymru i fwrw ymlaen i brynu band eang. Mae'r cynllun hwn ar gael oddi wrth ganolfannau cymorth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ledled Cymru.

- Mae'r buddsoddiad yn rhwydwaith digidol 2 Cymru gyfan i'r gwasanaeth iechyd wedi darparu cysylltedd band eang i 61.5 y cant o'r sector GIG sylfaenol ac eilaidd yng ngogledd Cymru.
- 
- Mae'r rhwydwaith dysgu gydol oes hefyd wedi darparu gwasanaeth band eang i 71 y cant o ysgolion uwchradd Conwy, 57 y cant yng Ngwynedd a 90 y cant yn Wrecsam.
- 
- Ym mis Ionawr 2004, bydd prosiect ysgogi'r galw yn dechrau gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision band eang i ddefnyddwyr busnes a phreswyl, a bydd yn arwain at fwy o gyflenwad a chynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.
- 
- Mae Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o recriwtio wyth o gynrychiolwyr tasglu Band Eang Cymru, a fydd yn hwyluso partneriaethau/cynlluniau llwyddiannus ac yn hyrwyddo manteision band eang fel bod modd cyflenwi rhaglen Band Eang Cymru. Bydd rhai o'r swyddi hyn yn gwasanaethu'r Gogledd.
- 
- Bydd llawer o ardaloedd yn y Gogledd yn gallu elwa o'r prosiectau Amcan 1. Un prosiect o'r fath yw'r prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol. Bydd y prosiect hwn, a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn darparu cymorth ariannol er mwyn i gynlluniau band eang gael eu gyrru ymlaen ar lefel leol. Prosiect arall y mae'r Cynulliad yn obeithiol y caiff ei

gymeradwyo yw'r fenter cymhorthdal seilwaith band eang. Bydd hwn yn galluogi busnesau a chymunedau i gyrchu at gysylltedd band eang.

### Swyddi'r Sector Gwasanaethau

**Owen John Thomas:** Faint o swyddi'r sector gwasanaethau sydd wedi eu colli yng Nghymru drwy symud swyddi dramor? (WAQ30315)

**Andrew Davies:** Nid oes data o'r fath ar gael. Yr ydym yn gweithredu mewn amgylchedd economaidd rhyngwladol cystadleuol a bwrdwn 'Cymru'n Ennill' yw gwella perfformiad economi Cymru. Dangosodd fy adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 17 Tachwedd fod cyflogaeth yng Nghymru wedi codi 72,000 er 2001, ein blwyddyn sylfaen at ddibenion mesur cynnydd o dan 'Cymru'n Ennill'.

### Amcan 1

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae partneriaethau gyda busnesau Cymru yn hyrwyddo darpariaeth Amcan 1? (WAQ30316)

**Andrew Davies:** Mae'r sector busnes yn cael ei gynrychioli ar bob partneriaeth sy'n helpu i hyrwyddo darpariaeth Amcan 1. Mae uned sector preifat Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhoi cyngor i'r sector busnes ar gyrchu at arian, ac mae modd gwneud hyn yn uniongyrchol, drwy gyflwyno prosiect, neu'n anuniongyrchol drwy gynlluniau cyfryngol. Ar hyn o bryd, mae 160 o brosiectau Amcan 1 yn cael eu harwain gan noddwyr sector preifat gyda chyllid gwerth rhyw £66 miliwn sydd bron iawn yn 11 y cant o'r holl grantiau sydd wedi'u rhwymo hyd yma. Yn ogystal, mae hwyluswyr sector preifat wedi cael eu penodi i helpu ymgeiswyr o'r sector preifat.

### AWEMA

**David Davies:** Pa ran a gymerodd y Gweinidog yn y penderfyniad i roi grant o £17,000 i AWEMA? (WAQ30318)

**Andrew Davies:** Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb i WAQ29889 a roddwyd ar 20 Tachwedd 2003.

### Cytundeb Cyffredinol ar Fasnachu mewn Gwasanaethau

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch effaith y cytundeb cyffredinol ar fasnachu mewn gwasanaethau ar y grym sydd ganddo fel Gweinidog? (WAQ30319)

**Andrew Davies:** Dim. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw'r cytundeb cyffredinol ar fasnachu mewn gwasanaethu. Nid yw'n effeithio o gwbl ar fy mhwerau i fel Gweinidog.

### Cynlluniau Ffyrdd Awdurdodau Lleol

**Peter Black:** Pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynlluniau ffyrdd awdurdodau lleol yn 2004-05 a allai fod yn aflwyddiannus wrth gynnig am grant trafnidiaeth? (WAQ30320)

**Andrew Davies:** Byddai angen i awdurdodau lleol sy'n dymuno rhoi cynlluniau ffyrdd newydd ar waith yn 2004-05 roi pecyn ariannu at ei gilydd, ar sail eu hadnoddau hwy eu hunain a chyfraniadau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel sy'n briodol.

### Cynlluniau Llwyddiannus am Grantiau Trafnidiaeth

**Peter Black:** Pa bryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn enwi'r cynlluniau llwyddiannus am grantiau trafnidiaeth ar gyfer 2004-05? (WAQ30321)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn disgwyl cyhoeddi setliad y grant trafnidiaeth ar gyfer 2004-05 oddeutu troad y flwyddyn.

### Polisi Band Eang

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi band eang yng Nghymru? (WAQ30322)

**Andrew Davies:** Cyfeiriaf chi at fy ymateb blaenorol i'ch cwestiwn WAQ29372, dyddiedig 30 Hydref 2003. Yn y cyfnod byr sydd wedi mynd heibio ers fy ateb diwethaf, yr unig newid y gallaf eich hysbysu amdano yw bod y prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol wedi cael ei gymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### Awdurdod Rheilffyrdd Strategol

**Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol? (WAQ30323)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cwrdd â chynrychiolwyr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn rheolaidd. Yn fwyaf diweddar, cyfarfûm â Richard Bowker ar 20 Hydref. Yr oedd y ddau ohonom yn siaradwyr yn seremoni lofnodi masnachfraint newydd Cymru a'r gororau ac yr oeddem yn bositif iawn bryd hynny ynglŷn â gweithio gydag Arriva Trains i wella gwasanaethau yng Nghymru.

### Polisïau Datblygu Economaidd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae ei bolisïau datblygu economaidd yn cael effaith ar ganolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ30324)

**Andrew Davies:** Mae ein polisïau economaidd yn gweithio'n dda yn y canolbarth a'r gorllewin.

### Stiwdios Ffilmiau Rhyngwladol y Dragon

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar ddatblygu Stiwdios Ffilmiau Rhyngwladol Dragon yn etholaeth Ogwr? (WAQ30326)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gael trafodaethau cynhyrchiol gyda'r cwmni ynglŷn â'i gais am gymorth, ac yr ydym yn ymwybodol bod y cwmni hefyd yn cynnal deialog ynghylch cyllid preifat, cynllunio a materion eraill.

### Y Gallu i Dderbyn Band Eang

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gallu i dderbyn band eang yng Nghymru? (WAQ30327)

**Andrew Davies:** Mae dros 300 o ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd yn gallu gweithredu ledled Cymru. BT yw'r prif ddarparwr, ac ef sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod y cyfnewidfeydd yn gallu ymdrin â band eang. Yn ddiweddar, cyhoeddodd BT gyrhaeddnodau i 244 o gyfnewidfeydd pellach yng Nghymru. Mae gan NTL rwydwaith cebl sy'n gweithredu ar draws de Cymru. Yn ogystal, mae MLL Telecom yn darparu gwasanaeth technoleg ddi-wifr sy'n golygu bod modd i ddarparwyr ymestyn cwmpas eu gwasanaeth i gynnwys cwsmeriaid busnes a phreswyl mewn ardaloedd lle nad oedd defnyddio copr neu ffibr yn cael ei ystyried yn opsiwn deniadol am resymau technegol neu economaidd. Yr wyf yn croesawu pob ymdrech gan gyflenwyr i sicrhau bod band eang ar gael yng Nghymru drwy ddefnyddio technolegau addas.

## Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yng Nghymru? (WAQ30328)

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, yr oedd anweithgarwch economaidd ymysg y boblogaeth o oed gwaith yng Nghymru yn y tri mis hyd at fis Medi 2003 43,000 yn is nag oedd flwyddyn ynghynt. Disgynnodd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymysg pobl o oed gwaith 2.6 y cant i 23.4 y cant dros y cyfnod hwn. Dyna'r gostyngiad mwyaf ymysg y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

## Gweithlu o Safon Fyd-eang

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'n ei wneud i gefnogi datblygu gweithlu o safon fyd-eang yng Nghymru? (WAQ30329)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn nodi ein cynlluniau i wella lefelau sgiliau gweithlu Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cystadlu yn niwydiannau'r dyfodol. Yr wyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni, fel a nodwyd yn 'Cymru'n Ennill' a'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth.

## Safle KTH ger Llanidloes

**Glyn Davies:** A oes contract wedi ei roi ar gyfer dymchwel unrhyw rai o'r adeiladau ar safle KTH ger Llanidloes ac, os oes, pa bryd y digwyddodd hyn? (WAQ30332)

**Andrew Davies:** Nac oes.

## Cefnogaeth Ariannol i AWEMA

**David Davies:** A oedd y Gweinidog yn ymwybodol ymlaen llaw o'r penderfyniad i roi cefnogaeth ariannol i AWEMA? (WAQ30333)

**Andrew Davies:** Nac oeddwn.

## Cefnogaeth Ariannol i AWEMA

**David Davies:** I ba raddau yr oedd y Gweinidog yn rhan o'r penderfyniad i roi cefnogaeth ariannol i AWEMA, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ30334)

**Andrew Davies:** Gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu cyllid i AWEMA o'r gronfa Ffordd i Ffyniant ym mis Hydref 2000 gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar y pryd.

## Mewnfuddsoddwyr Tramor a Mewnfuddsoddwyr Domestig

**Ann Jones:** Faint o swyddi sydd (a) wedi'u creu a (b) wedi'u cynnal yn (i) etholaeth Dyffryn Clwyd ac yn (ii) Sir Ddinbych gan fewnfuddsoddwyr tramor a mewnfuddsoddwyr brodorol bob blwyddyn dros y pum mlynedd ddiwethaf? (WAQ30336)

**Andrew Davies:** Rhestrir y swyddi sydd wedi cael cymorth drwy fewnfuddsoddi o dramor a mewnfuddsoddi o rannau eraill o'r DU isod:

| | 1998-99 | | 1999-2000 | | 2000-01 | | 2001-02 | | 2002-03 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. |
| Mewnfuddsoddi tramor | 159 | - | - | - | 29 | - | 79 | 193 | - | - |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mewnfuddsoddi brodorol** | 34 | 21 | - | 959 | - | 60 | - | - | 49 | - |

Mae’r swyddi hyn yn etholaeth Dyffryn Clwyd ac nid oes cofnod ar wahân ar gyfer gweddill sir Ddinbych am y cyfnod hwn.

## Mewnfuddsoddi

**Ann Jones:** Faint o swyddi sydd wedi’u creu neu eu diogelu gan fewnfuddsoddi ym mhob un o siroedd y Gogledd bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ30337)

**Andrew Davies:** Mae’r swyddi a gafodd eu creu neu eu diogelu drwy brosiectau mewnfuddsoddi sydd wedi’u cofnodi gan Awdurdod Datblygu Cymru dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, fesul ardal awdurdod unedol, fel a ganlyn:

| | 1998-99 | | 1999-2000 | | 2000-01 | | 2001-02 | | 2002-03 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. | New. | Diog. |
| **Conwy** | - | - | - | - | - | - | 10 | - | - | - |
| **Sir Ddinbych** | 193 | 21 | - | 959 | 29 | 60 | 79 | 193 | 49 | - |
| **Sir y Fflint** | 1,214 | 751 | 432 | 540 | 2,372 | 3,087 | 491 | 41 | 526 | 595 |
| **Gwynedd** | 40 | - | 104 | 317 | 336 | - | 305 | 306 | 45 | 4 |
| **Wrecsam** | 183 | 220 | 245 | 215 | 127 | - | - | - | 12 | - |
| **Ynys Môn** | 286 | 234 | 221 | 71 | 29 | - | 18 | 238 | 217 | 80 |

## Ffordd Gyswllt Penallta yng Nghaerffili

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffordd gyswllt Penallta yng Nghaerffili? (WAQ30352)

**Andrew Davies:** Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ar 8 Ebrill 2003 i glywed gwrthwynebiadau i’r Gorchmynion a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn perthynas â ffordd gyswllt arfaethedig Penallta. Mae cynnwys adroddiad yr arolygydd yn cael ei ystyried a disgwylir penderfyniad cyn y Nadolig.

Yn gynharach eleni, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gais am gyllid o gronfa adfywio lleol yr awdurdodau lleol. Nid oes galw am arian cyfatebol o dan amodau’r gronfa honno. Cynigiwyd grant o £1 filiwn mewn egwyddor, a chaiff ei gadarnhau cyn gynted ag y bydd y cyngor mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â’r prosiect.

## Cynllun Datblygu Eiddo

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm yr arian a roddwyd i Awdurdod Datblygu Cymru yn ne-orllewin Cymru ar gyfer y cynllun datblygu eiddo mewn setliadau yn 2001-02, 2002-03, a 2003-04? (WAQ30367)

**Andrew Davies:** O dan y cynllun datblygu eiddo, gwariodd rhanbarth de-orllewin yr awdurdod datblygu £25.1 miliwn yn 2001-02, £24 miliwn yn 2002-03 ac mae’n rhagweld gwariant o £27.3 miliwn yn 2003-04.

## Ffordd Liniaru ar gyfer Llandeilo

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gamau y mae’n eu cymryd i ddarparu ffordd liniaru ar gyfer Llandeilo? (WAQ30466)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi ymgynghorwyr i arfarnu trafnidiaeth er mwyn nodi, ar y cyd â buddiannau lleol, y problemau yn Llandeilo a ffyrdd posibl o'u datrys, fel a nodwyd ym mlaenraglen y cefnffyrdd (2002). Mae brîff yr ymgynghorydd yn cynnwys yr angen i gysylltu â swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.

Yn dilyn adolygiad o'r rhwydwaith ffyrdd strategol, bydd yr A476 yn cael ei gwneud yn gefnffordd o'r A48 yn Cross Hands hyd at yr A483 yn Ffair-fach, a bydd yr A483 yn colli ei statws cefnffordd o'r M4/A48 ym Mhont Abraham hyd at yr A476 yn Ffair-fach. Gallai'r newid hwn gymryd peth amser gan ei fod yn ddibynnol ar i arian fod ar gael ac ar wneud y Gorchmynion statudol angenrheidiol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cymorth i Fyfyrwyr

**Peter Black:** Pwy yw aelodau arfaethedig y grŵp sy'n cael ei sefydlu o dan arweiniad yr Athro Theresa Rees i ystyried cymorth i fyfyrwyr yng ngoleuni trosglwyddo pwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol, a beth yw cylch gorchwyl arfaethedig y grŵp hwnnw? (WAQ30285)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Fy mwriad yw ailgynnull y grŵp ymchwilio annibynnol blaenorol a fu'n ystyried caledi ymysg myfyrwyr ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru. Yr oedd y grŵp blaenorol yn un eang ei gwmpas, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yr awdurdodau addysg lleol a Chyngres yr Undebau Llafur. Drwy gymryd y cam hwn gellir manteisio ar yr arbenigedd a ddatblygwyd gan aelodau'r grŵp yn ystod yr astudiaeth flaenorol. Byddaf yn ysgrifennu at y cyn aelodau hyn yn fuan. Byddaf hefyd yn ceisio cyfraniadau o Loegr a'r Alban a hynny i gryn raddau oherwydd y llif trawsffiniol sy'n effeithio ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yr wyf yn cydnabod na fydd rhai aelodau o'r grŵp blaenorol yn gallu ymuno â'r astudiaeth hon efallai oherwydd ymrwymiadau eraill, felly byddaf hefyd yn cysylltu â'r cyrff perthnasol yng Nghymru i geisio enwebiadau, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru.

Byddaf yn cyhoeddi'r cylch gorchwyl cyn gynted ag yr wyf mewn sefyllfa i wneud hynny.

### Cyllid ar gyfer Addysg

**Ann Jones:** Faint o gyllid a ddarparwyd ar gyfer addysg ym mhob sir yng Nghymru bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ30341)

**Jane Davidson:** Darperir y rhan fwyaf o gyllid i'r awdurdodau lleol ar gyfer addysg drwy'r setliad refeniw i lywodraeth leol. Nid yw'r setliad wedi'i glustnodi a mater i bob awdurdod yw penderfynu faint o adnoddau i'w ddyrannu i bob sector gwasanaeth, gan gynnwys addysg, yn unol â'r anghenion a'r blaenoriaethau sy'n bodoli'n lleol yn ei farn ef.

Cyflwynwyd manylion y grantiau penodol dros y tair blynedd diwethaf i awdurdodau addysg lleol unigol i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fel atodiad D at fy adroddiad fel Gweinidog i'r cyfarfod ar 19 Tachwedd. Nid yw ffigurau am flynyddoedd cynharach ar gael yn hwylus.

### Arian sy'n cael ei Wario ar Ddisgyblion

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr arian sy'n cael ei wario ar bob disgybl ym mhob un o'r cyfnodau allweddol mewn ysgolion (a) cynradd a (b) uwchradd yng Nghymru? (WAQ30342)

**Jane Davidson:** Nid yw gwybodaeth am gyllidebau'r awdurdodau lleol am bob un o'r cyfnodau allweddol yn cael ei chasglu'n ganolog. Mae gwybodaeth am y cyllidebau fesul disgybl yn y sectorau

cynradd ac uwchradd wedi'i chynnwys ym mhapur ELL (2) 02-03 (td2) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 9 Gorffennaf 2003.

### Arian ar gyfartaledd ar gyfer Pob Myfyriwr Addysg Bellach

**Ann Jones:** Faint o arian ar gyfartaledd a neilltuwyd ar gyfer pob myfyriwr addysg bellach yng Nghymru bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ30343)

**Jane Davidson:** Nodir yr arian ar gyfartaledd fesul myfyriwr sy'n cyfateb i amser llawn dros y pum mlynedd diwethaf yn y tabl isod. Nid yw hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer addysg bellach nac unrhyw brosiectau cyfalaf y gallai cymorth fod wedi cael ei roi tuag atynt.

**Cyllid rheolaidd ar gyfer addysg bellach fesul myfyriwr sy'n cyfateb i amser llawn**

| | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** |
|---|---|---|---|---|---|
| £ y myfyriwr CALl | 2,615 | 2,751 | 2,841 | 2,940 | 3,054 |

### Gwariant Awdurdodau Lleol ar Addysg

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru canran gwariant awdurdodau lleol ar addysg, gan ddechrau gyda'r uchaf, ar gyfer pob sir yng Nghymru gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael? (WAQ30344)

**Jane Davidson:** Mae'r ffigurau a geisir wedi'u nodi yn y tabl isod.

| **Awdurdod** | **Canran o'r gwariant llawn ar addysg (a)** |
|---|---|
| Sir Benfro | 48 |
| Tor-faen | 47 |
| Caerffili | 46 |
| Sir Gaerfyrddin | 46 |
| Casnewydd | 45 |
| Merthyr Tudful | 45 |
| Powys | 45 |
| Sir y Fflint | 45 |
| Ceredigion | 45 |
| Bro Morgannwg | 45 |
| Sir Fynwy | 44 |
| Rhondda Cynon Taf | 44 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 43 |
| Wrecsam | 43 |
| Castell-nedd Port Talbot | 43 |
| Abertawe | 43 |
| Ynys Môn | 42 |
| Conwy | 42 |
| Blaenau Gwent | 41 |
| Caerdydd | 40 |
| Sir Ddinbych | 39 |
| Gwynedd | 39 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **43** |

(a) Gwariant refeniw crynswth, gan gynnwys gwariant a ariannir o grantiau penodol ond net o wariant a ariannir o ffioedd gwerthu a thaliadau. Nid yw'n cynnwys gwariant cyfalaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Y Rhaglen ar gyfer Rheoli Hwyaid Coch

**Alun Ffred Jones:** Pa gorff sy'n gyfrifol am y rhaglen ar gyfer rheoli hwyaid coch yng Nghymru? (WAQ30106)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r corff sy'n bennaf gyfrifol am y rhaglen i reoli hwyaid coch yn y Deyrnas Unedig. Ym mis Rhagfyr 2002, cytunodd Sue Essex AC ag Elliot Morlen AS y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r ffordd hon o weithredu ac mae'r swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar hyn.

### Saethu Hwyaid Coch

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ganllawiau sydd wedi'u rhoi ar saethu hwyaid coch yng Nghymru? (WAQ30107)

**Carwyn Jones:** Nid oes trwyddedau saethu cyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, fel rhan o'r strategaeth i'r DU, mae arbrawf rheoli yn cael ei gynnal i benderfynu ar y mesurau rheoli mwyaf effeithiol. Mae'r Cynulliad wedi caniatáu i ddulliau rheoli amgen gael eu hystyried ar Ynys Môn ac ar warchodfa'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yng Nghonwy. Mae'r rhain yn cynnwys saethu a difa wyau drwy eu pricio neu eu gorchuddio â pharaffîn hylif.

### Clefyd Pydredd Cylch mewn Tatws

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ai'r Cynulliad ynteu DEFRA sydd yn gyfrifol am ddifa a rheoli clefyd pydredd cylch mewn tatws? (WAQ30330)

**Carwyn Jones:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb polisi am faterion iechyd planhigion yng Nghymru. Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau DEFRA sy'n ymgymryd â materion gweithredol, megis gwaith arferol i orfodi'r ddeddfwriaeth iechyd planhigion a chyd-drefnu'r ymateb i bydredd cylch, ar ran y Cynulliad.

### Iawndal ar gyfer Da Byw a Gollwyd

**John Griffiths:** Beth yw'r amcangyfrif gorau y gellir ei roi o'r iawndal a dalwyd bob blwyddyn gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer da byw a gollwyd yng Nghymru, a oedd yn fwy na phrisiau cyfartalog y stoc honno ar y farchnad, yn y cyfnodau perthnasol ers sefydlu'r Cynulliad hyd heddiw? (WAQ30349)

**Carwyn Jones:** Mae'n amhosibl casglu data marchnad cywir am bob dosbarth o anifeiliaid, gan fod cynifer o anifeiliaid nad ydynt byth yn mynd i'r farchnad. Fodd bynnag, mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, 'Digolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis Buchol yng Nghymru', amcangyfrifwyd bod yr iawndal o leiaf 50 y cant yn uwch, yn 2002, na phrisiau gwaelodol y farchnad am anifeiliaid masnachol ac anifeiliaid o dras. Mae camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003.

### Cyllideb ar gyfer Da Byw a Gollwyd

**John Griffiths:** Beth yw'r cyfanswm a dalwyd o gyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer da byw a gollwyd yng Nghymru ers sefydlu'r Cynulliad hyd heddiw? (WAQ30350)

**Carwyn Jones:** TB mewn gwartheg yw'r unig glefyd anifeiliaid y mae iawndal wedi cael ei dalu i ffermwyr amdano o gyllideb y Cynulliad. Mae'r gost flynyddol i reoli TB mewn gwartheg yng Nghymru dros bob un o'r pum mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1998-99 | £491,000 |
| 1999-2000 | £1,304,000 |
| 2000-01 | £1,507,000 |
| 2001-02 | £2,218,000 * |
| 2002-03 | £7,910,000 * |

*heb gynnwys derbyniadau am garcasau.

### Dwyn Defaid

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu'u cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o ddwyn defaid yn ardal Llanfair-ym-Muallt yng nghanolbarth Cymru? (WAQ30361)

**Carwyn Jones:** Mae hyn yn rhywbeth yr wyf fi hefyd yn pryderu amdano. Fodd bynnag, mater gweithredol i'r heddlu yw nad oes a wnelo'r Cynulliad ag ef.

Gwn fod Heddlu Dyfed-Powys yn patrolio yn chwilio am ladron, a'u bod bob amser yn ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd iddynt.

Yr wyf yn ymwybodol hefyd o'r cynlluniau gwarchod ffermydd sydd mewn bodolaeth, lle mae rhwydweithiau o ffermwyr yn helpu ei gilydd gyda chymorth yr heddlu. Nod y cynlluniau yw diogelwch da byw a pheiriannau ffermydd: mae ffermwyr cyfagos yn rhoi gwybod i'w gilydd pan geir lladrata ac mae peiriannau'n cael eu marcio fel bod modd i hofrennydd yr heddlu eu hadnabod o'r awyr.

### Ceffylau'n mynd i'r Gadwyn Fwyd yn Gyfreithlon

**Glyn Davies:** Sawl ceffyl o Gymru sy'n mynd i'r gadwyn fwyd yn gyfreithlon? (WAQ30370)

**Carwyn Jones:** Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi fy hysbysu nad oes unrhyw ladd-dai yng Nghymru wedi cael eu trwyddedu i brosesu ceffylau i'w bwyta gan bobl. Mae'n bosibl fod ceffylau o ddaliadau yng Nghymru yn cael eu lladd mewn lladd-dai trwyddedig y tu allan i Gymru i gael eu bwyta gan bobl. Fodd bynnag, er bod y Gwasanaeth Hylendid Cig yn cadw cofnodion am niferoedd a rhywogaethau'r anifeiliaid sy'n cael eu prosesu mewn lladd-dai unigol, ni chofnodir tarddiad yr anifail. Nid yw'r wybodaeth a geisir ar gael felly.

### Pasportau i Geffylau

**Glyn Davies:** Beth fydd y gost o gyflwyno pasportau i geffylau yng Nghymru? (WAQ30372)

**Carwyn Jones:** Nid yw'n bosibl llunio ffigur cywir, ar wahân, am Gymru oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â nifer yr anifeiliaid a'r gwahanol drefniadau codi tâl. Fodd bynnag, dangosodd asesiad o effaith y rheoliadau, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2003, y byddai'r gost o gyflwyno pasport i bob ceffyl ledled Prydain Fawr oddeutu £17.6 miliwn, gyda chost flynyddol wedi hynny o rhwng £1 miliwn a £2 filiwn.

### Poblogaeth Geffylau

**Glyn Davies:** Sawl ceffyl sydd yng Nghymru? (WAQ30373)

**Carwyn Jones:** Mae canlyniadau'r cyfrifiad amaethyddol yn rhoi ffigur o oddeutu 40,000 o geffylau ar ryw 7,000 o ddaliadau amaethyddol yng Nghymru. Dim ond ceffylau ar ddaliadau amaethyddol sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad, nid ceffylau a gedwir ar ddaliadau eraill.

## Pasbortau i Geffylau

**Glyn Davies:** Erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid i bob ceffyl, gan gynnwys ceffylau hanner gwyllt, yng Nghymru gael pasbort ceffyl? (WAQ30374)

**Carwyn Jones:** Rhagwelir mai hydref 2004 fydd dyddiad gweithredu penderfyniad 2000/68 y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

## Gwlyptiroedd, Newid y Ffordd y caiff Tir ei Ddefnyddio a Rheoli Llifogydd

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno mesurau newydd yn ystod y deuddeg mis nesaf ar gyfer gwlyptiroedd, newid y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a rheoli llifogydd? (WAQ30404)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch modelau amgen i wella'r ffordd y rheolir llifogydd yng Nghymru. Bydd y fenter hon yn gyfle i newid y trefniadau presennol fel eu bod yn gweddu'n well i anghenion y ganrif hon ac i sialensiau newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Daw'r cyfnod ymgynghori ynghylch y trefniadau atal llifogydd yng Nghymru i'r dyfodol i ben ar 5 Rhagfyr ac yr wyf yn croesawu unrhyw sylwadau am yr opsiynau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, yr anfonwyd copi ohoni at holl Aelodau'r Cynulliad.

Mae prosiect mawr a ariannwyd gan y prosiect loteri, 'Wetlands for Wales', ar y gweill. Menter ar y cyd yw rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr RSPB, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru. Nod y prosiect hwn yw adfer a gwella statws cadwraethol wyth safle tir gwlyb. Mae gwell trefniadau rheoli yn cael eu sefydlu ar wlyptiroedd eraill drwy gytundebau rheoli ar safleoedd sydd â statws gwyddonol arbennig a chynlluniau rheoli ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd.

Fel rhan o'r broses o wella'r rheolaeth ar lifogydd yng Nghymru, yr wyf wedi cytuno i ariannu tri chynllun peilot dalgylch i reoli llifogydd, a fydd yn cael eu rhoi ar waith gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Dylai'r cynlluniau hyn fod yn help i ganfod y ffordd fwyaf priodol o reoli'r perygl o lifogydd yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau posibl yn yr hinsawdd ac yn y ffordd y caiff tir ei ddefnyddio.

## Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Adran 68 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru? (WAQ30442)

**Carwyn Jones:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori'n fuan ynghylch rheoliadau drafft a baratowyd yn unol â darpariaethau adran 68 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Y gobaith yw y bydd rheoliadau sy'n golygu bod modd ceisio hawddfraint ar draws tir comin a thir arall yn dod i rym yn hanner gyntaf y flwyddyn nesaf. Ni allaf roi unrhyw awgrym mwy pendant ynglŷn â'r amseru nes y byddaf wedi gweld ac wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Menter Coedwigaeth

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb sydd ar gael ar gyfer Menter Coedwigaeth ar gyfer 2003-04 a 2004-05? (WAQ30467)

**Carwyn Jones:** Caiff Menter Coedwigaeth (Asiantaeth Rheoli Coedwigaeth Cymru erbyn hyn a rhan o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru) ei hariannu'n uniongyrchol o fewn prif grŵp gwariant yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad. Pennwyd llinell sylfaen y Comisiwn Coedwigaeth fel rhan o adolygiad gwariant 2000 pan ymgymerodd y Cynulliad â'r cyfrifoldeb o ariannu coedwigaeth yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi wynebu prisiau is am ei gynnyrch coed amrywiol ac, yn arbennig, effaith y ffaith fod melin bapur Shotton yn symud 100 y cant tuag at ddeunydd wedi'i ailgylchu.

Mae'r materion hyn wedi effeithio ar sefyllfa ariannol net y Comisiwn Coedwigaeth. Yn hanesyddol, mae'r Cynulliad wedi gallu ymdrin â'r diffyg cyllid hwn drwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn, ond mae'r pwysau ariannol y bu'n rhaid ymdrin ag ef fel rhan o gylch cynllunio busnes 2003 wedi golygu na ellir dibynnu ar hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y dyfodol. Bu'n rhaid cymryd mesurau eraill, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd, nodi cyfleoedd newydd yn y farchnad ac ati.

Mae effaith y gostyngiad yn yr incwm am goed yn un sy'n anodd dygymod â hi. Er bod y Comisiwn Coedwigaeth yn gwneud popeth yn ei allu i gefnogi marchnadoedd newydd sy'n ymddangos, megis biodanwydd, ychydig o effaith gaiff hyn yn y tymor byr. Yn 2003-04 a 2004-05, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ad-drefnu'r rhaglen gynaeafu er mwyn gweithio mewn ardaloedd uwch eu gwerth lle mae'r costau gweithio yn is, ond nid yw hyn yn gynaliadwy a dim ond yn y tymor byr y mae modd ei wneud. Mae hefyd yn gohirio'r gwaith teneuo a chwympo coed costus a wneir at ddibenion amgylcheddol (e.e. adfer coetiroedd hynafol).

Yn ogystal, yr oedd cylch cynllunio busnes 2003 yn cynnwys swm o £2 filiwn i ddechrau gweithio ar raglenni allweddol yn deillio o strategaeth y Cynulliad 'Coetiroedd i Gymru', sef plannu mwy o goed llydanddail a sefydlu gorchudd di-dor yng nghoetiroedd y Cynulliad drwy systemau coedwrol nad ydynt yn cael gormod o effaith. Bydd effaith setliad y Comisiwn Coedwigaeth yn y gyllideb dros y ddwy flynedd nesaf yn golygu y bydd y rhaglenni hyn yn cael eu hymestyn dros gyfnod hwy bellach.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Cynnydd yn y Dreth Gyngor

**Nick Bourne:** Yn sgil datganiad y Gweinidog i'r Cynulliad ar 12 Tachwedd 2003, ynghylch y dreth gyngor, nad yw'n bwriadu ymyrryd 'oni bai fod y cynnydd yn y dreth gyngor yn mynd yn eithafol o uchel', a wnaiff egluro beth fyddai'n eithafol yn ei barn hi? (WAQ30286)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Byddwn yn ystyried cynnydd o 45 y cant, sef y cynnydd yn nhreth gyngor Cyngor Wandsworth, sy'n cael ei redeg gan y Torïaid, y flwyddyn ariannol hon yn eithafol.

### Pren ar gyfer Adeilad Newydd y Cynulliad

**Mick Bates:** Mewn perthynas â'r pren a'r cynhyrchion pren sy'n cael eu defnyddio yn adeilad newydd y Cynulliad neu a fydd yn cael eu defnyddio yno, a wnaiff y Gweinidog nodi o ba wlad y maent yn deillio, eu maint, a'r cwmnïau sy'n eu cyflenwi? (WAQ30292)

**Mick Bates:** Pa gamau y mae adran y Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod yr holl bren a'r holl gynhyrchion pren sy'n cael eu caffael ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad yn deillio o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy? (WAQ30293)

**Sue Essex:** Mae'r gwaith o gaffael pren a chynhyrchion pren yn dal i fynd rhagddo. Mae'n rhy gynnar felly i gadarnhau o ba wlad y maent yn deillio, faint sy'n cael ei gaffael a pha gwmnïau sy'n eu cyflenwi.

Fodd bynnag, yn unol â pholisi cynaliadwyedd y Cynulliad, gallaf gadarnhau bod amcanion Taylor Woodrow Construction Ltd yn cynnwys yr amcan y dylai pob prosiect gaffael pren o ffynonellau cynliadwy lle bo hynny'n ymarferol, ac os yn bosibl, dylid dewis pren sydd wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd.

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol hefyd mai'r nod yw ennill dyfarniad rhagorol o dan ddull asesu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau. Fel rhan o'r asesiad hwn, asesir pa un a ddefnyddiwyd deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy, a dyfernir credydau ychwanegol am ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau o'r fath. Y nod yw ennill y nifer uchaf o gredydau sy'n ymarferol bosibl.

## Caffael Pren

**Mick Bates:** Beth yw polisi Llywodraeth Lafur y Cynulliad ar gaffael pren a pha gamau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl bren neu gynhyrchion pren sy'n cael eu caffael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn deillio o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy? (WAQ30294)

**Sue Essex:** Mae gan y Cynulliad ddyletswydd statudol o dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau. O dan gynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad, mae'n ofynnol inni integreiddio datblygu cynaliadwy i mewn i'n gweithrediadau mewnol, sy'n cynnwys ein polisi i hyrwyddo materion gwyrdd a'n polisi caffael.

Mae'r cynllun wedi'i gyhoeddi ar y rhyngrwyd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol, cyn belled ag sy'n ymarferol, fod pob pren yr ydym yn ei gaffael yn dod o goedwigoedd a reolir mewn modd cynaliadwy a ffynonellau cyfreithiol. Yn sgîl y diwygio ar ein canllawiau gwyrdd i gyflenwyr, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, byddant wedyn yn pennu y dylai pren fod wedi ei ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd neu gorff cyfatebol pa le bynnag y mae hynny'n bosibl.

## Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd

**Nick Bourne:** Yn dilyn ei hateb i WAQ29801, a wnaiff y Gweinidog ddatgelu faint o'r 50 llythyr neu e-bost y mae wedi'u derbyn ers i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau i gyflwyno dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, a oedd yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw? (WAQ30351)

**Sue Essex:** Yr oedd pum eitem o ohebiaeth yn cefnogi'r dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd. Yr oedd saith eitem arall o ohebiaeth yn gofyn am wybodaeth bellach heb roi barn am rinweddau'r dyfarndaliadau. Nodai llawer o'r eitemau eraill fod angen rhagor o wybodaeth am ddiben y dyfarndaliadau, hyd yn oed os nad oedd cais penodol yn cael ei wneud am hynny.

## Cynghorwyr sydd wedi gwneud Cais i dderbyn Un Taliad

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog enwi'r cynghorwyr sydd wedi gwneud cais i dderbyn un taliad o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 ynghyd â pha blaid wleidyddol y maent yn perthyn iddi? (WAQ30369)

**Sue Essex:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael i Lywodraeth y Cynulliad.

## Blaenoriaethau ar gyfer Gwario ar Wasanaethau Cyhoeddus

**Nick Bourne:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwario ar wasanaethau cyhoeddus dros y 12 mis nesaf? (WAQ30444)

**Sue Essex:** Mae blaenoriaethau gwariant y Llywodraeth wedi eu nodi yn ein cynllun strategol 'Cymru: Gwlad Well', ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb derfynol.

## Y Siambr Drafod Bresennol

**Nick Bourne:** Pa astudiaethau sydd wedi eu gwneud o gost addasu'r Siambr drafod bresennol fel y gellir ei defnyddio ar ôl cwblhau'r Siambr newydd? (WAQ30551) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Gadeirydd Pwyllgor y Tŷ.***

**Y Diprwy Lywydd (John Marek):** Nid yw Swyddfa'r Llywydd wedi comisiynu nac wedi cynnal unrhyw astudiaethau i gost addasu'r Siambr bresennol fel bod modd ei defnyddio yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r Siambr newydd.

### Y Siambr Drafod Bresennol

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer defnyddio’r Siambr drafod bresennol ar ôl cwblhau’r Siambr newydd? (WAQ30552) ***Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig gan Gadeirydd Pwyllgor y Tŷ.***

**John Marek:** Pwyllgor y Tŷ fydd yn gyfrifol am ystyried a chytuno ar ddefnydd i’r Siambr drafod bresennol yn y dyfodol, ar ôl cwblhau’r Siambr newydd. Mae Aelodau wedi trafod yn anffurfiol y posibilrwydd o ddefnyddio’r Siambr bresennol fel ystafell bwyllgor ychwanegol. Bydd angen i Bwyllgor y Tŷ werthuso hynny ac opsiynau eraill maes o law er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio’r ystafell.

### Cost Mesurau Diogelwch ar gyfer Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi amcangyfrif o gost mesurau diogelwch ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ30553)

**Sue Essex:** Mae cost yr holl ddarpariaethau diogelwch ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad yn debygol o fod yn fwy na £5 miliwn. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu ymhellach a bydd yn destun ymarferiadau creu gwerth.

### Adeilad Newydd y Cynulliad (Amcangyfrifon o ran cost Dodrefn, Gosodiadau, Ffitiadau a TG)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru’r amcangyfrifon diweddaraf o ran cost dodrefn, gosodiadau, ffitiadau a TG ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ30554)

**Sue Essex:** Ni allaf ddadlennu’r amcangyfrifon diweddaraf am ddarparu’r adnoddau hyn yn yr adeilad newydd, am y rhesymau a nodwyd yn yr ateb a roddais i OAQ28476.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Adroddiad Iechyd a Chynllunio

**Mick Bates:** Y mae 25 mis wedi mynd heibio ers y dywedwyd bod modd cyhoeddi’r adroddiad iechyd a chynllunio; pryd y gallwn ddisgwyl iddo gael ei gyhoeddi a phryd y caiff ei gyflwyno gerbron y Cynulliad? (WAQ30291)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ym mis Ionawr 2002 argymhellodd is-bwyllgor plant a phobl ifanc y Cabinet y dylai ystyried materion iechyd cyhoeddus fod yn rhan o’r gweithdrefnau cynllunio. Cadarnhaodd y Cabinet yr angen am waith pellach i gyflawni hyn ym mis Mai 2002.

Cafodd papur ymchwil ei gomisiynu oddi wrth y Ganolfan Ymchwil i’r Amgylchedd ac Iechyd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd, ym mis Medi 2002. Cynhaliwyd seminar i ymarferwyr ym mis Ionawr 2003 i gyfarwyddo’r gwaith.

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd interim gerbron y Cabinet ar 27 Ionawr 2003. Dylai’r adroddiad ymchwil fod ar ei wedd derfynol yn fuan, wedyn gellir ystyried a ddylai ei argymhellion gael eu rhoi ar waith ac, os felly, sut, ochr yn ochr â’r gwaith sy’n parhau ar ‘Cynllunio: Cyflawni dros Gymru’. Yr wyf yn rhagweld y bydd y Cabinet yn ystyried y ffordd ymlaen, gyda chyngor oddi wrth fy nghyd-Weinidog sy’n gyfrifol am gynllunio, Carwyn Jones AC, yn y flwyddyn newydd.

Caiff yr adroddiad ymchwil ei gyhoeddi wedi hynny.

**Achosion Gofal Parhaus**

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw'r byrddau iechyd lleol wedi derbyn cyfarwyddyd i beidio â phenderfynu ar achosion gofal parhaus nes cyhoeddi cyfarwyddyd ar gyfer Gymru gyfan? (WAQ30331)

**Jane Hutt:** Y mae'r byrddau iechyd lleol yn penderfynu ar geisiadau cyfredol am ofal iechyd parhaus o fewn y GIG yn ôl yr angen. Y byrddau iechyd lleol sydd hefyd yn ymchwilio i geisiadau am ad-dalu costau gofal yn y gorffennol, ar sail honiadau fod gofal iechyd parhaus o fewn y GIG wedi cael ei wrthod yn amhriodol gan yr awdurdodau iechyd a fodolai cynt (yn dilyn adroddiad yr ombwdsmon). Caiff ffrwyth yr ymchwiliadau hyn ei gyflwyno i banel adolygu Cymru gyfan, sy'n cael ei sefydlu er mwyn darparu proses deg a thryloyw i benderfynu ar yr hawliadau hyn ar draws Cymru.

**Amser Aros i Blentyn Weld Seicolegydd Clinigol**

**Ann Jones:** Faint o amser y mae'n rhaid i blentyn aros ar hyn o bryd i weld seicolegydd clinigol ym mhob un o fyrddau iechyd lleol Cymru? (WAQ30345)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog.

**Ymosodiadau Treisgar mewn Ysbytai**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymosodiadau treisgar a fu ym mhob un o ysbytai Cymru bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf? (WAQ30346)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog. Mae Cylchlythyron Iechyd i Gymru yn 2002 wedi ei gwneud yn glir i ymddiriedolaethau'r GIG y dylent gasglu'r data hwn a rhoi adroddiadau i'w rheolwyr ac i'r cyrff sy'n cynrychioli'r staff.

**Nyrsys Ysgol**

**Ann Jones:** Faint o nyrsys ysgol a oedd yn cael eu cyflogi gan bob awdurdod iechyd/bwrdd iechyd lleol yng Nghymru bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf? (WAQ30347)

**Jane Hutt:** Ni chesglir gwybodaeth am staff y GIG mewn ffordd sy'n nodi nyrsys ysgol ar wahân. Cânt eu cynnwys gyda'r holl staff nyrsio arall sy'n gweithio yn y gymuned.

**Tynnu Cleifion Oddi ar Restrau Meddygon Teulu**

**Ann Jones:** Faint o gleifion a gafodd eu tynnu oddi ar restrau meddygon teulu fesul (a) sir a (b) awdurdod iechyd/bwrdd iechyd lleol bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf? (WAQ30348)

**Jane Hutt:** Mae'r tabl isod yn dangos y data sydd ar gael am y ddwy flynedd diwethaf, a gofnodwyd fesul ardaloedd yr hen awdurdodau iechyd yn unig.

**Trafodion cofrestru cleifion**

| | Cleifion a dynnwyd oddi ar restr meddyg teulu oherwydd gweithred dreisgar neu fygythiad o drais | Cleifion a drosglwyddwyd ar gais y meddyg teulu | Cleifion a drosglwyddwyd ar gais y claf |
|---|---|---|---|
| **1993-94** | 4 | 3,530 | 48 |
| **1994-95** | 97 | 2,936 | 69 |
| **1995-96** | 48 | 2,830 | 35 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1996-97** | 80 | 2,797 | 38 |
| **1997-98** | 90 | 3,489 | 90 |
| **1998-99** | 81 | 1,539 | 104 |
| **1999-2000** | 74 | 1,774 | 197 |
| **2000-01:** | | | |
| Bro Taf | 43 | 558 | 94 |
| Dyfed Powys | 13 | 81 | 13 |
| Gwent | 10 | 371 | 38 |
| Bro Morgannwg | 8 | 542 | 26 |
| Gogledd Cymru | - | 393 | 52 |
| Cymru | 74 | 1,945 | 223 |
| **2001-02:** | | | |
| Bro Taf | 40 | 591 | 133 |
| Dyfed Powys | 11 | 84 | 8 |
| Gwent | 28 | 380 | 13 |
| Bro Morgannwg | 13 | 602 | 34 |
| Gogledd Cymru | - | 320 | 46 |
| Cymru | 92 | 1,977 | 234 |

### Tueddiadau yn y Gweithlu ym Maes Nyrsio, Practis Cyffredinol, a Bydwreigiaeth

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y tueddiadau diweddar yn y gweithlu ym maes a) nyrsio, b) practis cyffredinol, ac c) bydwreigiaeth sy'n effeithio ar y GIG yng Nghymru? (WAQ30354)

**Jane Hutt:** Dengys y ffigurau diweddaraf fod nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG wedi codi i 81,400 yn 2002, o'i gymharu â chyfanswm o 68,620 yn 1997. Mae hyn yn gynnydd o 5.8 y cant mewn blwyddyn a chynnydd o 18.7 y cant er 1997.

Cynyddodd nifer y nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd sy'n gweithio yn y GIG i 25,821 yn 2002, cynnydd o 1,382 mewn blwyddyn ac o 4,061 er 1997.

Mae nifer yr ymarferwyr meddygol cyffredinol yng Nghymru wedi cynyddu 5 y cant dros y ddegawd ddiwethaf. Yr oedd y cyfanswm, ar 30 Medi 2002, yn 1,930.

Mae'r cynyddiadau hyn yn dangos yn glir fod y twf sy'n ofynnol er mwyn inni gyrraedd ein targedau staffio ar gyfer 2010 yn digwydd.

Mae nifer y swyddi gwag wedi disgyn hefyd wrth i nifer y swyddi gynyddu. Gostyngodd nifer y swyddi gwag yn y GIG 13 y cant yn y chwe mis hyd at 30 Medi 2002 ac yr oedd i gyfrif am 2.5 y cant o holl swyddi'r GIG.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Amddifadedd yng Ngogledd Cymru

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y berthynas rhwng y prosesau a ddefnyddir i fesur tlodi a'r rhai a ddefnyddir i fesur amddifadedd yng ngogledd Cymru? (WAQ30296)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae'r cysyniad o 'amddifadedd' yn un anodd i'w ddiffinio a'i fesur. Y dull swyddogol a ddefnyddir yng Nghymru, a gweddill y Deyrnas Unedig, ar hyn o bryd i oresgyn yr anawsterau hyn yw edrych ar amddifadedd fel cyfuniad o ddimensiynau neu 'barthau' gwahanol. Defnyddiodd mynegai amlamddifadedd Cymru 2000 y data oedd ar gael bryd hynny i ddisgrifio rhai o'r parthau hyn. Wedyn cafodd yr agweddau unigol hyn o

amddifadedd eu cyfuno o fewn un mynegai gyda'r nod o ganfod y mannau hynny lle ceir llawer iawn o achosion o amlamddifadedd. Mewn geiriau eraill, ni ellir mesur amlamddifadedd, fel y'i dynodir ym mynegai amlamddifadedd Cymru 2000, yn uniongyrchol. Cyfuniad ydyw o wahanol fathau o amddifadedd (er bod cysylltiad rhyngddynt) sy'n cael eu cynrychioli gan bob un o'r parthau.

Cynhyrchodd mynegai amlamddifadedd Cymru 2000 restr raddedig o'r ardaloedd etholiadol yng Nghymru, yn cynnwys y rheini yng ngogledd Cymru. Mae'n bosibl cyfuno'r wybodaeth yn y parthau i gyfeirio at ardaloedd mwy (er enghraifft, ardaloedd awdurdodau lleol neu ogledd Cymru yn ei gyfanrwydd). Fodd bynnag, mae mwy nag un ffordd o gyfuno data ar lefel yr ardaloedd etholiadol unigol, felly nid oes modd rhestru'r awdurdodau lleol, neu ardaloedd mwy, yn ôl eu trefn raddedig.

Mae'r termau 'tlodi' ac 'amddifadedd' yn cael eu defnyddio'n aml fel pe baent yn gyfystyron. Fodd bynnag, gellir haeru bod tlodi yn golygu diffyg adnoddau ariannol tra bo amddifadedd yn cyfeirio at adnoddau o bob math. Mae mynegai amlamddifadedd Cymru 2000 yn nodi'r parthau canlynol ar gyfer amddifadedd:

- amddifadedd o ran incwm
- amddifadedd o ran cyflogaeth
- amddifadedd o ran iechyd ac anabledd
- amddifadedd o ran addysg, sgiliau a hyfforddiant
- amddifadedd o ran tai
- mynediad daearyddol at wasanaethau.

Felly, un ffordd o fesur tlodi yng Nghymru, yn cynnwys gogledd Cymru, yw drwy barth incwm mynegai amlamddifadedd Cymru 2000.

Mae'r dangosyddion incwm isel a ddefnyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wrth iddi fynd ati i fesur tlodi yn swyddogol wedi'u seilio ar yr arolwg o adnoddau teuluoedd ac arolwg panel aelwydydd Prydain. Nid yw'r ddau arolwg hwn yn cynnwys samplau digon mawr yng Nghymru i gynhyrchu ffigurau sy'n ddibynadwy yn ystadegol am incwm isel, neu dlodi, ar lefel is na Chymru gyfan.

### Cyflog Cyfartal rhwng Menywod a Dynion

**Jenny Randerson:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau cyflog cyfartal rhwng menywod a dynion yng Nghymru? (WAQ30301)

**Edwina Hart:** Mae cam un ymgyrch cyflog cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd wedi'i anelu'n bennaf at y sector cyhoeddus, wedi ei gwblhau erbyn hyn ac mae gwerthusiad cychwynnol wedi cael ei gwblhau. Yr wyf newydd gytuno ar becyn o gynigion, ar y cyd â Chyngres Undebau Llafur Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, i dywys cam dau yr ymgyrch yn ei flaen. Bydd cam dau yn canolbwyntio'n bennaf ar y sector preifat a bydd yn manteisio ar y cysylltiadau cryf sydd gan Gyngres Undebau Llafur Cymru â llawer o gyflogwyr i'w perswadio am fanteision polisïau cyflog cyfartal yn y tymor hir.

### Trwyddedu ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pryd y disgwylir i dai amlfeddiannaeth gael eu trwyddedu? (WAQ30302)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi ymrwymo i'r cynigion i drwyddedu tai amlfeddiannaeth a gynhwysir yn y Mesur Tai, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines. Caiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno pan fydd y Mesur wedi cwblhau'r broses seneddol.

## Grantiau i Berchnogion Preswyl

**Peter Black:** Faint o grantiau y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd cynghorau'n gallu eu dyfarnu i berchnogion preswyl y flwyddyn nesaf ar sail y gyllideb o £103 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ30305)

**Edwina Hart:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod cyllidebau o ran gwariant yr awdurdodau lleol ar grantiau i berchnogion preswyl. Mae'r adnoddau ar gyfer adnewyddu tai yn adnoddau sydd heb eu clustnodi gan mwyaf a mater i'r awdurdodau yw penderfynu faint i'w ddefnyddio i ymdrin â'u blaenoriaethau lleol. Yn ychwanegol at yr adnoddau nad ydynt wedi'u clustnodi, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £25 miliwn pellach yn benodol i hybu'r gwaith o adnewyddu ardaloedd yng Nghymru.

## Cynllun Cofrestru Amlfeddiannaeth

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog restru'r siroedd yng Nghymru (a) sydd wedi rhoi cynllun cofrestru amlfeddiannaeth ar waith a (b) sydd heb roi cynllun o'r fath ar waith? (WAQ30340)

**Edwina Hart:** Dengys y wybodaeth ddiweddaraf fod cynghorau Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Chonwy yn gweithredu cynlluniau cofrestru tai amlfeddiannaeth gyda darpariaethau rheoli arbennig. Mae gan 10 awdurdod arall gynlluniau cofrestru a rhestrir hwy isod:

- Caerdydd
- Sir Benfro
- Ceredigion
- Bro Morgannwg
- Sir Ddinbych
- Wrecsam
- Sir y Fflint
- Ynys Môn
- Gwynedd
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd.